Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Gwyliwr Nos | Lleoliad: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| Adran: | Gwersyll Llangrannog | Cyflog: | Gweithredol 1: £22,932 y flwyddyn (pro rata) / £12.60 yr awr |
| Oriau Gwaith: | Rhan amser<br>(18 awr yr wythnos)<br>8yh – 8yb | Cytundeb: | Parhaol |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Cyrsiau | Rheolaeth Llinell: | Dim |

Prif bwrpas y swydd:

1. Sicrhau diogelwch plant ag athrawon yn ystod y nos.
2. Sicrhau diogelwch yr adeiladau yn ystod y nos.
3. Bod ar gael i gynorthwyo athrawon/arweinyddion yn ystod y nos yn ôl y galw.
4. Cysylltu ag athrawon/arweinyddion pan fo'r angen.
5. Tacluso'r adeiladau, hel sbwriel a gwaith cyffredinol o gwmpas y Gwersyll fel a phryd y bo angen.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Sicrhau diogelwch yr adeilad ac adrodd ar unrhyw ddigwyddiad sydd yn ymwneud â'r adeilad neu wersyllwr/ymwelydd â'r Gwersyll. Mae taflenni digwyddiadau i'w cael yn ffeil y Gwyliwr Nos ar gyfer unrhyw adroddiad.

2. Ni ddylai'r Gwyliwr Nos ymwneud â phlant a phobl ifanc ar ben ei hun, dylid trefnu fod athro/arweinydd arall yn bresennol wrth ddelio a sefyllfa o ddisgyblu/anhawster. Mae pob gwyliwr nos yn derbyn copi o 'Canllawiau Diogelu Plant' a 'Côd Ymddygiad Urdd Gobaith Cymru' ac yn dilyn y canllawiau hynny. Mae un o reolwyr y Gwersyll ar gael drwy gydol yr amser i ddelio ac unrhyw fater annisgwyl / Cymorth Cyntaf.

3. Sicrhau diogelwch yr adeilad gan gerdded o'i amgylch a chau unrhyw ddrysau allanol, diffodd goleuadau a chloi'r drysau. Rhaid nodi'r amser y buoch yn gwirio diogelwch yr adeilad ar y daflen diogelwch sydd yn ffeil y Gwyliwr nos.

4. Bydd gwylwyr nos hefyd yn sicrhau fod y gwersyll yn daclus wrth glirio cadeiriau, byrddau, a sbwriel o'r ystafelloedd cyhoeddus fel y neuadd, y lolfa, y dderbynfa ayyb. Dylai'r gwyliwr nos hefyd sicrhau fod y gegin y staff yn lan a thaclus gan olchi unrhyw lestri budur yn y peiriant golchi bob nos.

5. Lleolir y Gwyliwr tu ôl i ddesg y dderbynfa. Dylai gario ffôn symudol y Gwersyll pan nad yw yno. Dylai'r gwyliwr nos sicrhau fod y dderbynfa yn lân a thaclus ar bob achlysur ac ni ddylai unrhyw berson oni bai am aelodau o staff yr Urdd gael mynediad i swyddfa'r Urdd yn y dderbynfa.

6. Os bydd larwm dân dylai'r gwyliwr nos sicrhau fod pawb yn gadael y Gwersyll yn ddiogel ac yn ymgymull yn y man priodol. Dylai hefyd gysylltu â'r rheolwr ar ddyletswydd. Ni ddylai neb ddychwelyd i'r Gwersyll nes bod yr adeilad yn gwbl ddiogel. Bydd Adran Ddiogelwch CMC hefyd ar safle i roi'r cyngor priodol.

7. Yn achlysurol bydd gofyn i'r Gwyliwr nos ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol; megis, diweddaru bas data, gosod ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ayyb.

8. Mae rôl y gwyliwr nos yn un pwysig. Rydych yn cynrychioli'r Gwersyll a'r Urdd a dylech ymddwyn yn broffesiynol ar bob achlysur. Os oes gennych unrhyw bryderon dylech gysylltu â'r rheolwr.

---

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Y gallu i siarad Cymraeg neu yn awyddus i ddysgu.<br><br>2. Unigol egniol.<br><br>3. Unigolyn trefnys.<br><br>4. Gallu i weithio fel rhan o dim llwyddianus. | 1. Profiad o weithio mewn Gwersyll. |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Medi 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

Gwiriadau Perthnasol:

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).